



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Awdurdodau Tân ac Achub i ddod yn ymgyngoreion statudol yn y broses rheoli datblygu

Dyddiad cyhoeddi: 28 Gorffennaf 2020

Ymatebion erbyn: 23 Hydref 2020

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cynigion i ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 er mwyn cynnwys Awdurdodau Tân ac Achub Cymru fel ymgynghoreion statudol.

Sut i ymateb

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cyfres o gwestiynau penodol y byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich ymateb iddynt.

Croesewir ymatebion yn Gymraeg neu'n Saesneg, a dylid eu hanfon drwy e-bost neu drwy'r post erbyn **23/10/2020** fan bellaf.

Gallwch ymateb drwy ddefnyddio un o'r dulliau canlynol.

Ar-lein:

Cwblhewch ffurflen ymateb yr ymgynghoriad ar-lein drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

llyw.cymru/ymgyngoriadau

E-bost:

Cwblhewch ffurflen ymateb yr ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon drwy e-bost

planconsultations-f@llyw.cymru

(rhowch 'Ymgynghoreion Cynllunio Statudol – Awdurdodau Tân ac Achub' yn y llinell destun)

Post:

Cwblhewch ffurflen ymateb yr ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon drwy'r post i:

Ymgynghoreion Cynllunio Statudol – Awdurdodau Tân ac Achub

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd ar gais.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bost: planconsultations-f@llyw.cymru

Ffôn: Amy Ravitz-Williams ar 0300 025 5733

**Hefyd ar gael yn
Saesneg yn:**

<https://gov.wales/consultations>

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan contract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd

Gwybodaeth yw:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

- 1. **Diben yr ymgynghoriad hwn 2**
- 2. **Y sefyllfa bresennol 2**
- 3. **Pam rydym yn cynnig newid? 4**
- 4. **Beth yw'r prif newidiadau rydym yn eu cynnig? 4**

1. Diben yr ymgynghoriad hwn

- 1.1 Mae gan drychineb Tŵr Grenfell ym mis Mehefin 2017 oblygiadau eang a dwfn i ddiogelwch adeiladau preswyl a'r ffordd y mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymateb i danau ynddynt. Ar ôl y tân, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Arbenigwyr ar Ddiogelwch Adeiladau a oedd yn cynnwys datblygwyr, penseiri, landlordiaid, arolygwyr adeiladau a chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Tân. Yn ei adroddiad ym mis Ebrill 2019, nododd y Grŵp nifer o argymhellion o ran sut y dylai polisïau ac arferion Cymreig newid yn sgil tân Grenfell.
- 1.2 Ymhlith yr argymhellion hyn, nodwyd y dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub gael mwy o rôl wrth gynllunio, dylunio a chodi adeiladau preswyl uchel iawn. Byddai cynnwys y Gwasanaethau Tân ac Achub ar gam cynnar yn rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau ar newidiadau i'r risg leol o dân ac unrhyw agweddau ar ddatblygiadau arfaethedig sy'n peri pryderon o ran diogelwch tân. Roedd yr argymhellion yn cynnwys deddfu newidiadau i'r broses gynllunio a'r broses rheoli adeiladu er mwyn gwneud y Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol yn y broses cymeradwyo cynllunio ac ehangu eu rôl yn y broses o gymeradwyo gwaith rheoli adeiladu ar gyfer adeiladau preswyl uchel iawn. Derbyniodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yr argymhellion hyn ym mis Mai 2019, yn amodol ar ymgynghoriad pellach.
- 1.3 Ar hyn o bryd, mae'n rhaid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar geisiadau i gymeradwyo Rheoliadau Adeiladu. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol ymgynghori â nhw'n benodol ar geisiadau am ganiatâd cynllunio.
- 1.4 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newid hynny er mwyn gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol ar geisiadau cynllunio sy'n ymwneud â datblygiadau penodedig. Yn y ddogfen hon, pan fyddwn yn cyfeirio at "Wasanaethau Tân ac Achub" rydym yn golygu'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

2. Y sefyllfa bresennol

Awdurdodau Tân ac Achub

- 2.1 Mae tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru gan gwmpasu Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru. Mae pob un yn gyfrifol, o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, am hybu diogelwch tân ac am ymateb i danau, damweiniau ffyrdd, llifogydd a rhai argyfyngau eraill. Mae Awdurdodau Tân ac Achub hefyd yn gyfrifol am reoleiddio a gorfodi diogelwch tân mewn eiddo annomestig, gan gynnwys ardaloedd cyffredin mewn blociau o fflatiau o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Ymgynghoreion statudol ar y cam rheoli datblygu

- 2.2 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (y cyfeirir atynt ar y cyd fel "y Gorchymynion Gweithdrefn") yn

gosod gofyniad i ymgynghori â chyrrff cyhoeddus allweddol ar y camau ymgynghori cyn ymgeisio¹ ac ar ôl ymgeisio² o'r broses gwneud cais cynllunio.

- 2.3 Ar y cam ymgynghori cyn ymgeisio, mae'n rhaid i ddatblygwyr ymgynghori â'r cyrrff hynny a restrir³ yn y Gorchmynion Gweithdrefn ar gynigion datblygu a fyddai'n creu datblygiad mawr neu ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol ac sy'n berthnasol i'r disgrifiad a restrir. Diben hyn yw sicrhau bod datblygwyr yn ceisio sylwadau gan gyrrff allweddol ar faterion technegol arbenigol, neu mewn perthynas ag asedau penodol, er mwyn llywio proses ddylunio'r datblygiad a'r cais cynllunio.
- 2.4 Os bydd cais cynllunio i'w bennu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu Weinidogion Cymru, o dan y Gorchmynion Gweithdrefn bydd yn ofynnol iddynt ymgynghori â'r cyrrff hynny a restrir pan fydd y datblygiad arfaethedig yn berthnasol i ddisgrifiad penodol. Diben y cam ymgynghori ar ôl ymgeisio hwn yw sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru yn ceisio sylwadau gan gyrrff allweddol ar faterion technegol arbenigol, neu mewn perthynas ag asedau penodol, pan fydd arbenigedd neu wybodaeth awdurdod yn gyfyngedig. Bydd y wybodaeth arbenigol a geir drwy'r sylwadau hyn yn cynorthwyo'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth iddynt benderfynu ar rai ceisiadau cynllunio.
- 2.5 Yn ogystal, mae dyletswydd ar y cyrrff hynny a restrir i ymateb pan fydd Awdurdod Cynllunio Lleol yn dewis ymgynghori ymhellach ar unrhyw geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â chais cynllunio yr ymgynghorwyd â nhw yn ei gylch yn wreiddiol.⁴ O ystyried y mathau hyn o geisiadau, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod disgresiwn ac nid gofyniad ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i ymgynghori â'r cyrrff hyn ar geisiadau o'r fath.
- 2.6 Mae'r ymgynghoreion statudol a nodir yn y Gorchmynion Gweithdrefn yn cwmpasu ystod eang o gyrrff cyhoeddus ac yn cynnwys:
- Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill
 - Cynghorau Cymuned neu Gynghorau Tref
 - Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
 - Y Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear
 - Gweinidogion Cymru
 - Gweithredwyr Rhwydweithiau Rheilffordd
 - Awdurdodau Priffyrdd Lleol
 - Deiliaid Hawliau Ffordd

¹ Adran 61Z o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd, ac Erthyglau 2B a 2D o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, fel y'i diwygiwyd, ac Erthyglau 7 a 9 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016.

² Erthyglau 14, 15 ac 15ZA o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, fel y'i diwygiwyd, ac Erthyglau 22, 23 a 24 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016.

³ Atodlen 4 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, fel y'i diwygiwyd, ac Atodlen 5 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016.

⁴ Adran 100A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd, ac Erthygl 15E o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, fel y'i diwygiwyd.

- Yr Awdurdod Glo
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Theatrau
- Chwaraeon Cymru;
- Glandŵr Cymru

3. Pam rydym yn cynnig newid?

- 3.1 Rydym yn ymwybodol bod sawl Awdurdod Cynllunio Lleol eisoes yn ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar geisiadau cynllunio ar sail wirfoddol ac anstatudol. Rydym yn cynnig ffurfioli'r broses honno, am ddau reswm.
- 3.2 Yn gyntaf, bydd yn rhoi cyfle i Awdurdodau Tân ac Achub wneud sylwadau ar ddatblygiadau arfaethedig sy'n peri pryder o ran diogelwch tân. Gallai pryderon o'r fath ymwneud â phethau fel lleoliad y datblygiad mewn perthynas ag eiddo eraill lle mae risg hysbys o dân; agosrwydd at dir lle mae risg hysbys o danau gwyllt; neu fynediad i beiriannau tân ac argaeledd cyflenwadau dŵr unwaith y bydd y datblygiad wedi'i gwblhau.
- 3.3 Yn ail, a hyd yn oed os nad oes pryderon o'r fath, mae'r gallu i ddiffodd tân yn effeithiol yn dibynnu ar sicrhau bod gan Awdurdodau Tân ac Achub wybodaeth fanwl am eiddo yn yr ardaloedd maent yn eu gwasanaethu, a'u risg amcangyfrifedig o dân. Bydd hynny'n helpu i sefydlu a chynnal y capasiti a'r gallu lleol i fynd i'r afael â'r risgiau hynny. Bydd ymgysylltu ar y cam hwn yn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i ddiweddarau'r wybodaeth honno, a dechrau cynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau mewn gallu gweithredol a allai fod yn angenrheidiol yng ngoleuni'r datblygiad.
- 3.4 Yr hyn a sbardunodd y newid yn uniongyrchol oedd y tân yn Nhŵr Grenfell; a bydd blociau preswyl uchel iawn bob amser yn peri risgiau a heriau penodol i'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Fodd bynnag, mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol i ddatblygiadau mawr eraill. Er enghraifft, gallai ystad fawr newydd o dai isel fod gryn bellter oddi wrth yr orsaf dân bresennol agosaf, neu gellid ei hadeiladu gerllaw tir lle mae risg hysbys o danau gwyllt. Felly nid yw ein cynigion yn gyfyngedig i gynigion i ddatblygu adeiladau uchel iawn.

4. Beth yw'r prif newidiadau rydym yn eu cynnig?

- 4.1 Rydym yn cynnig gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol ar geisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygu (fel y cynigir ym mharagraffau 4.12 – 4.16 isod) ar y camau ymgynghori cyn ymgeisio ac ar ôl ymgeisio o'r broses. Byddai'n gymwys i geisiadau a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ond hefyd i geisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt⁵. Bydd hyn yn golygu, ar gyfer mathau penodol o ddatblygu, y bydd gofyn i ddatblygwyr ymgynghori â'r Awdurdodau Tân ac Achub cyn cyflwyno eu cais a bydd angen i

⁵ Adran 62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd.

Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru ymgynghori â nhw er mwyn eu cynorthwyo i ystyried y cais a phenderfynu arno.

- 4.2 Fel sy'n digwydd gydag ymgynghoreion statudol presennol, cynigir hefyd y bydd yn ofynnol i'r Awdurdodau Tân ac Achub ymateb pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn dewis ymgynghori ymhellach ar geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â chais cynllunio yr ymgynghorwyd â nhw yn ei gylch yn wreiddiol. Byddai hyn yn cynnwys:
- ceisiadau i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl a wnaed o dan adran 92 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
 - ceisiadau am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio a wnaed o dan adran 96A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
 - ceisiadau am unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol yn ôl unrhyw amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo e.e. ceisiadau i ryddhau amodau cynllunio.

Egwyddor a dyletswyddau dod yn ymgynghorai statudol

- 4.3 Rydym yn awyddus i glywed eich barn am yr egwyddor ynghylch a ddylai Awdurdodau Tân ac Achub fod yn ymgynghorai statudol yng ngoleuni'r baich posibl y byddai hyn yn ei achosi iddynt. Nid ydym am i Awdurdodau Tân ac Achub gael eu gorlwytho â cheisiadau i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau, a thrwy hynny arafu'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio o ganlyniad i ymatebion araf neu ddargyfeirio staff Awdurdodau Tân ac Achub oddi wrth dasgau rheng flaen.
- 4.4 Yn yr un modd ag ymgynghoreion statudol presennol, bydd yn rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub gydymffurfio â rhai dyletswyddau cyfreithiol:

Dyletswydd i ddarparu 'ymateb o sylwedd'

- 4.5 Mae'n ofynnol i bob ymgynghorai ddarparu 'ymateb o sylwedd' i ymgynghoriadau gan ddatblygwyr ar y cam ymgynghori cyn ymgeisio ac i Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru ar y camau ymgynghori ar ôl ymgeisio o'r broses gwneud cais cynllunio. Mae'n rhaid iddynt hefyd wneud hynny pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn dewis ymgynghori ymhellach ar geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â chais cynllunio yr ymgynghorwyd â'r ymgynghorai statudol yn ei gylch yn wreiddiol.
- 4.6 Yn unol â'r gofynion yn y Gorchmynion Gweithdrefn, byddai 'ymateb o sylwedd' a fyddai'n ofynnol gan Awdurdod Tân ac Achub yn un sy'n:
- cadarnhau nad oes ganddo unrhyw sylw i'w wneud;
 - cadarnhau nad oes ganddo wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, ac yn cyfeirio'r person sy'n ymgynghori at gyngor sefydlog cyfredol yr Awdurdod Tân ac Achub ar destun yr ymgynghoriad;
 - rhoi gwybod i'r person sy'n ymgynghori am unrhyw bryderon a ganfuwyd a sut y gellir mynd i'r afael â nhw; neu
 - rhoi gwybod i'r person sy'n ymgynghori ei fod yn gwrthwynebu ac yn nodi'r rhesymau am y gwrthwynebiad.

- 4.7 Fodd bynnag, ar y cam ymgynghori ar ôl ymgeisio, mae'n bosibl y bydd angen amrywio'r 'ymateb o sylwedd' a nodir uchod gan ddibynnu ar b'un a oedd y cynnig datblygu yn ddarostyngedig i ofynion ymgynghori cyn ymgeisio gyda'r Awdurdod Tân ac Achub.
- 4.8 Os bydd ymgynghoriad cyn ymgeisio wedi'i gynnal ac os bydd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi rhoi ymateb ar y cam hwnnw, byddai 'ymateb o sylwedd' y byddai angen ei ddarparu yn unol â'r Gorchmynion Gweithdrefn yn un sy'n:
- cadarnhau nad oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub sylw pellach i'w wneud mewn cysylltiad â'r datblygiad arfaethedig ac yn cadarnhau bod unrhyw sylwadau a wnaed ar y cam ymgynghori cyn ymgeisio yn parhau'n berthnasol;
 - rhoi gwybod am unrhyw bryderon newydd a ganfuwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, pam nad oedd y pryderon hynny wedi eu nodi yn yr ymateb a ddarparwyd ar y cam ymgynghori cyn ymgeisio, a:
 - (i) sut y gall y ceisydd fynd i'r afael â'r pryderon; neu
 - (ii) fod y gwrthwynebiadau i'r datblygiad arfaethedig yn berthnasol o hyd a'r rhesymau drostynt.

Dyletswydd i ddarparu ymateb o sylwedd o fewn amserlen benodedig

- 4.9 Yn unol â gofynion y Gorchmynion Gweithdrefn ar gyfer ymgynghoreion statudol presennol, rydym yn cynnig y canlynol:
- y dylai ymatebion gan Awdurdodau Tân ac Achub i ddatblygwyr mewn perthynas â'r cam ymgynghori cyn ymgeisio gael eu darparu o fewn 28 diwrnod (42 diwrnod yn achos ceisiadau cynllunio am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol);
 - y dylai ymatebion gan Awdurdodau Tân ac Achub i Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru ar y cam ymgynghori ar ôl ymgeisio, a phan ymgynghorir â nhw ar geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â chais cynllunio, gael eu cyflwyno o fewn 21 diwrnod, neu 30 diwrnod yn achos datblygiadau ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol;
 - gellir ymestyn y naill gyfnod neu'r llall drwy gytundeb â'r ceisydd mewn perthynas ag ymgynghoriad cyn ymgeisio neu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol neu Weinidogion cymru mewn perthynas ag ymgynghoriad ar gais.

Dyletswydd i ddarparu adroddiad perfformiad blynyddol i Weinidogion Cymru

- 4.10 Rydym hefyd yn cynnig, yn unol â'r gofynion ar gyfer ymgynghoreion statudol eraill, y bydd hefyd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub lunio adroddiad perfformiad blynyddol i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru. Bydd angen i'r adroddiad hwn gwmpasu cydymffurfiaeth â'u dyletswydd gyfreithiol ar y ddau gam ymgynghori yn y broses gwneud cais cynllunio ac wrth ymateb i geisiadau i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau gan Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru ar geisiadau am gymeradwyaeth, cydsyniad neu gytundeb mewn perthynas â chais cynllunio.

- 4.11 Fel sy'n ofynnol yn ôl y Gorchmynion Gweithdrefn⁶, bydd angen i'r adroddiad gynnwys sawl gwaith y bu'n rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub ddarparu 'ymateb o sylwedd' yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw, yn ogystal â'r nifer a ddarparwyd a'r amser a gymerwyd i ddarparu'r ymateb mewn perthynas â'r amserlenni a nodir uchod. Bydd y cyfnod adrodd yn cwmpasu 12 mis, gan ddechrau ar 1 Ebrill bob blwyddyn, a bydd angen cyflwyno'r adroddiad i Weinidogion Cymru erbyn 1 Gorffennaf ar gyfer y cyfnod adrodd blaenorol.

C1	Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 er mwyn gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol? Os na, pam?
-----------	---

Math o ddatblygiad a fydd yn destun ymgynghoriad

- 4.12 Gwnaethom esbonio ym mharagraff 3.4 nad ydym yn cynnig cynnal ymgynghoriadau mewn perthynas ag eiddo preswyl uchel iawn yn unig, sef yr hyn y canolbwyntiodd y Grŵp Arbenigwyr ar Ddiogelwch Adeiladau arno. Rydym o'r farn y dylid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar bob cynnig preswyl y mae nifer mawr o bobl yn gysylltiedig ag ef er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn briodol a bod yr adnoddau sydd ar gael gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ddigonol i ymdrin â'r risg o dân a gyflwynir gan y datblygiad newydd.
- 4.13 Mewn perthynas â chynigion amhreswyl, rydym o'r farn y dylid rhoi cyfle i'r Awdurdodau Tân ac Achub wneud sylwadau ar bob cynnig ar raddfa fawr er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn briodol ac y byddai gallu'r Awdurdod Tân ac Achub i ddiffodd unrhyw danau yn ddigonol.
- 4.14 Dylai pob cynnig datblygu gwastraff gael ei gynnwys ar gyfer ymgynghoriad â'r Awdurdodau Tân ac Achub. Gall datblygu safle gwastraff greu risg sylweddol o dân, yn aml o ganlyniad i'r symiau mawr o ddeunyddiau fflamadwy (megis pren, plastig, cardbord a theiars) a gaiff eu storio ar y safleoedd hyn. Felly mae'n bwysig bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau o'r fath ar y cam cynharaf.
- 4.15 Mae'r math o ddatblygiadau y mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Gweinidogion Cymru a datblygwyr roi gwybod amdanynt i ymgynghoreion statudol yn effeithio ar nifer yr ymgynghoriadau yn fawr. Mae ein trafodaethau parhaus ag Awdurdodau Tân ac Achub wedi nodi bod hyn yn peri pryder iddynt. Nid ydym am i Awdurdodau Tân ac Achub gael eu gorlwytho ag ymgynghoriadau diangen. Felly, rydym yn cynnig y dylai'r datblygiadau y dylid ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol yn eu cylch gynnwys unrhyw un neu fwy o'r canlynol—
- (a) datblygiad gwastraff;
 - (b) darparu unedau preswyl lle
 - (i) bwriedir darparu 10 neu fwy o unedau preswyl (gan gynnwys o ganlyniad i newid defnydd); neu

⁶ Erthygl 15 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, fel y'i diwygiwyd, ac Erthygl 24 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016.

(ii) caiff y datblygiad ei godi ar safle ag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy ac nid yw'n hysbys p'un a yw is-baragraff (b)(i) yn berthnasol i'r datblygiad⁷;

(c) darparu adeilad neu adeiladau lle mae arwynebedd y llawr i'w greu gan y datblygiad yn 1,000 o fetrau sgwâr neu fwy; neu

(d) datblygiad a godir ar safle ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy.

4.16 Mae'r disgrifiadau hyn o ddatblygiadau yn debyg i baragraffau (b) i (e) o'r diffiniad o "ddatblygiad mawr" yn Erthygl 2 o Orchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu Cymru. Rydym o'r farn bod 10 annedd yn drothwy priodol pan oedd pryderon Awdurdodau Tân ac Achub ynghylch dyluniad ac argaeledd adnoddau yn sylweddol. Rydym wedi ymestyn hyn i gynnwys fflatiau a thai amlfeddiannaeth felly mae nifer tebyg o aelwydydd sy'n wynebu risg yn destun ymgynghoriad. Felly, yng ngoleuni ein trafodaethau, pan fyddwn yn dweud "unedau preswyl" ym mharagraff 4.15 (b) uchod, rydym yn cynnig cwmpasu'r canlynol:

(a) tŷ annedd;

(b) fflat mewn adeilad;

(c) ystafell wely mewn tŷ neu fflat amlfeddiannaeth;

(d) ystafell wely mewn llety preswyl arall, er enghraifft ar gyfer myfyrwyr a'r henoed.

C2	Ydych chi'n cytuno bod y math o ddatblygiad y cynigir rhoi gwybod i Awdurdodau Tân ac Achub amdano yn briodol ac, os ddim, sut y dylai newid?
C3	A ddylai nifer yr ystafelloedd gwely lle mae eiddo yn rhai amlfeddiannaeth gael ei ddefnyddio i sbarduno gofyniad ymgynghori? Os na, pam?
C4	Pa effaith y gall y newidiadau arfaethedig ei chael ar adnoddau o fewn Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eich barn chi?
C5	Pa effaith y gall y newidiadau arfaethedig ei chael ar adnoddau o fewn Awdurdodau Tân ac Achub yn eich barn chi?
C6	Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

⁷ Ni fydd is-baragraff (b) yn berthnasol i gais cynllunio am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol gan nad yw tai wedi'u rhagnodi'n benodol fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

C7	Esboniwch sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y cynigion arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
C8	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, rhowch wybod amdanynt.